



Bwletin Cyfrifiad 2011: prif nodweddion y boblogaeth

Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Corfforaethol

Rhagfyr 2012

Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau sut gallwn wella'r bwletin hwn, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol
Bodlondeb,
Conwy, LL32 8DU.
E-bost: uned.ymchwil@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 575291

Cyfrifiad 2011: prif nodweddion y boblogaeth – bwletin ymchwil (Rhagfyr 2012)

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Y prif ganlyniadau	2
Poblogaeth	3
Aelwydydd	3
Yr iaith Gymraeg	5
Ethnigrwydd	6
Gwlad enedigol	7
Salwch hir dymor cyfyngol	8
Crefydd	9
Amserlen rhyddhau data	11
Ynglŷn â'r Cyfrifiad	12

Cyflwyniad

Dyma'r ail fwletin mewn cyfres a fydd yn cael ei chynhyrchu gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol i gyd-daro â rhyddhau canlyniadau Cyfrifiad 2011 fesul cam. Mae'n edrych ar y prif ystadegau ynglŷn â phobl a phoblogaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 11 Rhagfyr 2012. Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn dangos ystadegau ynglŷn ag oedran, math o aelwyd, ethnigrwydd, cenedligrwydd, sgiliau Cymraeg, iechyd a chrefydd. Lle bo'n briodol rydym wedi cymharu canlyniadau Cyfrifiad 2011 gyda data'r cyfrifiad diwethaf yn 2001, i ddangos sut mae nodweddion poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi newid dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Bydd rhagor o ddata'n cael ei ryddhau mewn camau dros y 18 mis nesaf, ac fe fydd yn cynnwys data manwl ar lefel ardal fach am bobl, aelwydydd a threfniadau byw, gwaith a thai/adnoddau.

Yn ogystal â darparu dadansoddiad o ddata'r Cyfrifiad, roedd y tîm Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol yn gweithio'n agos i gydlynu gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gefnogi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a wnaeth yr arolwg a gynhelir bob deng mlynedd. Fe wnaethom ni helpu i sicrhau ein bod wedi cyfrif pob preswlydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, ble bynnag roeddent yn byw.

Y prif ganlyniadau

- Mae proffil oedran Bwrdeistref Sirol Conwy yn hŷn yn 2011 nag yn 2001. Mae llai o blant; 16.6% o'r boblogaeth yn 2011 o'i gymharu â 18.4 yn 2001. Cynyddodd y gyfran o bobl wedi ymddeol yn y Fwrdeistref Sirol o 23.1% yn 2001 i 24.4% yn 2011. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru sef 18.4% yn 2011.
- Mae aelwydydd un person yn cyfrif am fwy na thraean yr holl aelwydydd (33.8%). Mae hyn yn gynydd bychan ers 2001 (32.8%) ac roedd hyn dri y cant yn uwch na'r ganran ar gyfer Cymru gyfan (30.8%). Roedd aelwydydd un pensiynwr yn cyfrif am 17.1% o'r holl aelwydydd (19.2% yn 2001).
- Bu gostyngiad bychan yng nghyfran yr aelwydydd gyda phlant dibynnol i 24.5% (26% yn 2001). Roedd hyn er gwaethaf cynnydd bychan yng nghyfran yr aelwydydd â rhieni sengl ac aelwydydd â chyplau'n cyd-fyw lle be plant dibynnol. Dros Gymru, roedd 28.1% o'r holl aelwydydd yn cynnwys plant dibynnol, er bod y gyfran hon wedi disgyn ers 2001.
- Mae'r gyfran o aelwydydd lle nad oes ond pensiynwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy wedi gostwng. Fodd bynnag, maent yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r holl aelwydydd o hyd; 29.2% yn 2011.
- Mae'r gyfran o aelwydydd â pherchnogion preswyl wedi disgyn ers 2001, o 72.2% i 69.4% yn 2011. Bu gostyngiad dros Gymru gyfan i 67.4% yn 2011. Bu cynydd yn nifer yr aelwydydd sy'n rhentu'n breifat ym Mwrdeistref Sirol Conwy – 15.1% o aelwydydd, o'i gymharu ag 11.4% yn 2001. Bu cynydd hefyd dros Gymru i 12.7% yn 2011. Mae'r gyfran o aelwydydd o fewn y sector tai rhent cymdeithasol wedi aros yn sefydlog.
- Mae'r gyfran o drigolion sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng ychydig i 27.4% yn 2011 (roedd 29.2% yn siarad Cymraeg yn 2001). Mae hyn yn ostyngiad o 2.2%. Bu gostyngiad o 1.75% dros Gymru gyfan.
- Y ganran o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy oedd yn wyn Prydeinig yn 2011 oedd 95.4%, gostyngiad o 1.4% ers 2001 (96.8%). Yng Nghymru, roedd 93.2% yn wyn Prydeinig yn 2011. Roedd yn 96.0% yn 2001; sy'n ostyngiad o 2.8%.
- Mae'r ganran o drigolion a aned yng Nghymru wedi cynyddu'n rhyw ychydig i 54.4% yn 2011. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd dros Gymru (72.7%) At ei gilydd, ganed 95.7% y trigolion o fewn y DU, o gymharu â 94.5% yng Nghymru.
- Roedd 2.5% o drigolion wedi cael eu geni mewn mannau eraill, ac wedi byw yn y DU am fwy na 10 mlynedd. Roedd 0.4% o drigolion wedi cael eu geni y tu allan i'r DU ac wedi byw yma am lai na dwy flynedd yn 2011.
- Roedd y gyfran o drigolion Bwrdeistref Sirol Conwy oedd o oedran gweithio ac heb unrhyw salwch hirdymor cyfyngol yn 83.5%. Mae hyn yn uwch nag yn 2001, sy'n awgrymu bod y boblogaeth rhyw gymaint yn fwy iach yn 2011.
- Mae'r gyfran o Gristnogion ym Mwrdeistref Sirol Conwy wedi gostwng i 64.7% o'r holl drigolion. 77.7% oedd y gyfran yn 2001. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2011, sef 57.6%.
- Mae cyfran y trigolion heb unrhyw grefydd wedi cynyddu o 14% yn 2001 i 26.1% yn 2011. Cyfartaledd Cymru yn 2011 oedd 32.1%.

Poblogaeth

Mae proffil oedran Bwrdeistref Sirol Conwy yn hŷn yn 2011 nag yn 2001. Mae llai o blant; 16.6% o'r boblogaeth o'i gymharu â 18.4 yn 2001. Cwmpodd cyfartaledd Cymru i 18.2% yn 2011. Cynyddodd y gyfran o drigolion o oedran gweithio ym Mwrdeistref Sirol Conwy rhyw ychydig o 58.5% yn 2001 i 59.0% yn 2011. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 63.5% yn 2011. Cynyddodd y gyfran o bobl dros 65 oed yn y Fwrdeistref Sirol o 23.1% yn 2001 i 24.4% yn 2011. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 18.4% yn 2011.

Y canolrif oedran (sef yr oedran y mae hanner y boblogaeth yn hŷn nag o a'r hanner arall yn iau nag o) ym Mwrdeistref Sirol Conwy oedd 26 yn 2011, o'i gymharu â 43 yn 2001. Yng Nghymru gyfan, roedd y canolrif oedran yn 41 oed yn 2011 ac yn 39 yn 2001. Mae hyn oherwydd fod cyfran uwch o drigolion hŷn a chyfran lai o blant ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Tabl 1: strwythur oedran (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS102EW & amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (ACB) 2001

	BS Conwy			Cymru	
	2011 Cyfrifiad		2001 ACB	2011 Cyfrifiad	2001 ACB
	Nifer	%	%	%	%
Pob person	115,228				
0-15 oed	19,126	16.6%	18.4%	18.2%	20.2%
16-64 oed	67,940	59.0%	58.5%	63.5%	62.4%
65+ oed	28,162	24.4%	23.1%	18.4%	17.4%
Canolrif Oedran*	46		43	41	39

* Yr oed y mae naill hanner y boblogaeth yn hŷn nag o a'r llall yn iau nag o.

Defnyddiwyd amcangyfrifon canol blwyddyn 2001 at ddibenion cymhariaeth yn y tabl hwn, gan fod Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (sy'n cynnal y Cyfrifiad) yn cydnabod fod tan gyfrif wedi digwydd yng Nghyfrifiad 2001. Gwnaed lwfans am hyn yn rhannol yn yr amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2001.

Aelwydydd

Y diffiniad o aelwyd yw un person yn byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) yn byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu cyfleusterau coginio ac yn rhannu ystafell fyw neu ystafell fwyta. Rhaid i aelwyd gynnwys o leiaf un person.

Mae aelwydydd un person yn cyfrif am fwy na thraean yr holl aelwydydd (33.8%) yn 2011. Mae hyn yn gynydd bychan ers 2001 (32.8%) ac roedd hyn dri y cant yn uwch na'r ganran ar gyfer Cymru gyfan (30.8%). Roedd aelwydydd un pensynwr yn cyfrif am 17.1% o'r holl aelwydydd (19.2% yn 2001).

Bu gostyngiad bychan yng nghyfran yr aelwydydd gyda phlant dibynnol i 24.5% (26% yn 2001). Roedd hyn er gwaethaf cynnydd bychan yng nghyfran yr aelwydydd â rhieni sengl ac aelwydydd â chyplau'n cyd-fyw lle bo plant dibynnol. Dros Gymru, roedd 28.1% o'r holl aelwydydd yn cynnwys plant dibynnol, er bod y gyfran hon wedi disgyn ers 2001.

Mae cyfran yr aelwydydd pensiynwyr yn unig ym Mwrdeistref Sirol Conwy wedi gostwng, ar gyfer pensiynwyr sengl, cyplau sy'n bensiywyr ac aelwydydd eraill lle nad oes ond pensiynwyr. Fodd bynnag, maent yn dal yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r holl aelwydydd yn y Fwrdeistref Sirol; 29.2% yn 2011. Bu gostyngiad yn y cyfraddau ledled Cymru hefyd, ond maent yn is nag ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar 22.9%.

Tabl 2: cyfansoddiad aelwydydd (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS105EW & Cyfrifiad 2001 tabl KS020

	BS Conwy		Cymru		
	2011 Cyfrifiad		2001 Cyfrifiad	2011 Cyfrifiad	2001 Cyfrifiad
	Nifer	%	%	%	%
Pob aelwyd	51,177				
Aelwydydd un person					
pensiynwr	8,748	17.1%	19.2%	13.7%	15.5%
arall	8,549	16.7%	13.6%	17.1%	13.7%
Aelwydydd un teulu'n unig					
pensiynwr yn unig	5,952	11.6%	12.7%	8.9%	9.6%
pâr priod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw: dim plant	6,648	13.0%	13.3%	12.6%	13.1%
pâr priod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw: plant dibynnol	6,135	12.0%	15.0%	13.9%	17.5%
pâr priod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw: pob plentyn yn blentyn nad yw'n ddibynnol	2,725	5.3%	5.2%	6.3%	6.6%
pâr sy'n cyd-fyw: dim plant	2,236	4.4%	3.7%	4.6%	3.8%
pâr sy'n cyd-fyw: plant dibynnol	2,133	4.2%	3.2%	4.5%	3.3%
pâr sy'n cyd-fyw: pob plentyn yn blentyn nad yw'n ddibynnol	229	0.4%	0.3%	0.5%	0.3%
rhiant unigol: plant dibynnol	3,194	6.2%	6.0%	7.5%	7.3%
rhiant unigol: pob plentyn yn blentyn nad yw'n ddibynnol	1,781	3.5%	2.9%	3.8%	3.4%
Mathau eraill o aelwyd					
â plant dibynnol	1,051	2.1%	1.8%	2.2%	2.1%
pawb yn fyfyrwr amser llawn	4	0.0%	0.0%	0.6%	0.4%
pensiynwr yn unig	253	0.5%	0.6%	0.3%	0.5%
arall	1,539	3.0%	2.6%	3.3%	2.9%
Pob aelwyd un person	17,297	33.8%	32.8%	30.8%	29.2%
Pob aelwyd gyda phlant dibynnol	12,513	24.5%	26.0%	28.1%	30.2%
Pob aelwyd â dim ond pensiynwyr ynddynt	14,953	29.2%	32.5%	22.9%	25.6%

Nid yw'n cynnwys unrhyw blant sydd â chymar priod, cymar neu blentyn yn byw yn yr aelwyd.

Mewn cymhariaeth â 2001, mae llai o aelwydydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy â pherchnogion preswyl nag yn 2011; 69.4% o gymharu â 72.2%. Bu gostyngiad dros Gymru gyfan i 67.4% yn 2011. Bu cynydd yn nifer yr aelwydydd sy'n rhentu'n breifat ym Mwrdeistref Sirol Conwy – 15.1% o aelwydydd, o'i gymharu ag 11.4% yn 2001. Bu cynydd hefyd dros Gymru i 12.7% yn 2011. Mae'r gyfran o aelwydydd o fewn y sector tai rhent cymdeithasol wedi aros yn sefydlog.

Tabl 3: deiliadaeth (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS402EW & Cyfrifiad 2001 tabl KS018

	BS Conwy		Cymru	
	2011 Cyfrifiad		2001 Cyfrifiad	
	Nifer	%	%	%
Pob aelwyd	51,177			
Yn berchen arno yn gyfan gwbl	20,409	39.9%	38.1%	35.4%
Yn berchen arno gyda morgais neu fenthyciad	15,092	29.5%	34.1%	32.0%
Cynllun rhan-berchnogaeth*	378	0.7%	1.1%	0.3%
Llety cymdeithasol a rentir: gan y Cyngor**	-	-	7.8%	9.8%
Llety cymdeithasol a rentir: cymdeithas tai / landlord cymdeithasol cofrestredig	5,946	11.6%	4.1%	6.6%
Llety preifat a rentir: landlord preifat neu asiantaeth gosod tai***	7,729	15.1%	11.4%	12.7%
Llety preifat a rentir: arall****	805	1.6%	3.3%	1.5%
Yn byw mewn llety heb dalu rhent	818	1.6%		1.6%

*Yn talu peth rhent a pheth morgais

**Fe drosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei holl stoc tai i Gartrefi Conwy ac felly mae'r rhes hon yn wag ar gyfer 2011

***Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth Dai Gydweithredol ac Elusenol

**** Yn cynnwys cyflogwr aelod o'r cartref a pherthynas neu ffrind aelod o'r cartref

Yr iaith Gymraeg

Mae'r gyfran o drigolion Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng ychydig i 27.4% yn 2011. Roedd 29.2% o'r trigolion yn siarad Cymraeg yn 2001. Mae hyn yn ostyngiad o 2.2%. Bu gostyngiad o 1.75% dros Gymru gyfan.

Dim ond cynydd bychan sydd wedi bod yng nghyfran trigolion Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n gwybod dim Cymraeg (0.3%).

Tabl 4: gwybodaeth o'r Gymraeg (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS207WA & Cyfrifiad 2001 tabl KS025

	BS Conwy		Cymru		
	2011 Cyfrifiad		2001 Cyfrifiad	2011 Cyfrifiad	2001 Cyfrifiad
	Nifer	%	%	%	%
Pob person 3 oed a throsodd	111,724				
Dim gwybodaeth o'r Gymraeg	67,716	60.6%	60.3%	73.3%	71.6%
Yn deall Cymraeg llafar yn unig	10,655	9.5%	7.8%	5.3%	4.9%
Pob siaradwr Cymraeg	30,600	27.4%	29.2%	19.0%	20.5%
Yn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	23,063	20.6%	23.2%	14.6%	16.3%

Ethnigrwydd

Canran y bobl wyn Brydeinig ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn 2011 oedd 95.4%. Roedd yn 96.8% yn 2001, gostyngiad o 1.4%. Yng Nghymru, roedd 93.2% yn Wyn Prydeinig yn 2011. Roedd yn 96.0% yn 2001, gostyngiad o 2.8%.

Bu peth cynydd ym mhob grŵp lleiafrif ethnig ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Y grŵp cymysg yw'r grŵp lleiafrif ethnig mwyaf bellach; 894 o bobl. Mae hyn yn wahanol i Gymru'n gyfan; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yw'r grŵp ethnig mwyaf.

Tabl 5: grwpiau ethnig (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS201EW & Cyfrifiad 2001 tabl KS006

	BS Conwy		Cymru		
	2011 Cyfrifiad		2001 Cyfrifiad	2011 Cyfrifiad	2001 Cyfrifiad
	Nifer	%	%	%	%
Pob person	115,228				
Gwyn Prydeinig	109,911	95.4%	96.8%	93.2%	96.0%
Gwyn Sipsi neu deithiwr Gwyddelig	65	0.1%	-	0.1%	-
Gwyn arall	2,573	2.2%	2.2%	2.3%	1.9%
Cymysg	894	0.8%	0.4%	1.0%	0.6%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	876	0.8%	0.3%	2.3%	1.8%
Du neu ddu Prydeinig	199	0.2%	0.1%	0.6%	0.2%
Tsieineaidd	376	0.3%	0.2%	0.4%	0.2%
Grŵp ethnig arall	334	0.3%	0.1%	0.5%	0.2%

Gwlad enedigol

Ni fu unrhyw newid arwyddocaol yn nosbarthiad gwledydd genedigol trigolion Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae canran y trigolion a aned yng Nghymru wedi cynyddu'n rhyw ychydig i 54.4% yn 2011. 54.0% oedd y gyfran yn 2001. Pery hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru; yn 2011 roedd 72.7% o holl drigolion Cymru wedi'u geni yng Nghymru.

Ganed 95.7% o drigolion Bwrdeistref Sirol Conwy yn y DU, o'i gymharu â 94.5% o bobl Cymru.

Deuai 0.6% o drigolion Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2011 o'r gwledydd sydd wedi eu derbyn i'r UE. 0.9% oedd y gyfran gogyfer â hynny yng Nghymru. Nid oes data ar gael ar gyfer 2001.

Tabl 6: gwlad enedigol (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS204EW & Cyfrifiad 2001 tabl KS005

	BS Conwy		Cymru		
	2011 Cyfrifiad		2001 Cyfrifiad	2011 Cyfrifiad	2001 Cyfrifiad
	Nifer	%	%	%	%
Pob person	115,228				
Pobl a aned yng Nghymru	62,720	54.4%	54.0%	72.7%	75.4%
Pobl a aned yn Lloegr	45,798	39.7%	41.2%	20.8%	20.3%
Pobl a aned yn yr Alban	1,306	1.1%	1.2%	0.8%	0.8%
Pobl a aned yng Ngogledd Iwerddon	432	0.4%	0.4%	0.3%	0.3%
Pobl a aned yng Ngweriniaeth Iwerddon	790	0.7%	0.9%	0.4%	0.4%
Pobl a aned yng ngwledydd eraill yr UE, aelodau 2001*	917	0.8%	0.8%	0.9%	0.8%
Pobl a aned yng ngwledydd eraill yr UE, gwledydd sydd wedi'u derbyn**	741	0.6%		0.9%	
Gwlad Pwyl	455	0.4%		0.6%	
Pobl a aned yn rhywle arall	2,507	2.2%	1.6%	3.3%	1.9%

*Gwledydd sydd wedi'u cynnwys: Awstria, Gwlad Belg, Denmarc. Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Gwlad Groeg, Yr Eidal, Lwcsembwrg, Yr Iseldiroedd, Portiwgal, Sbaen, Sweden

**Gwledydd sydd wedi'u derbyn i'r UE: Bwlgaria, Cyprus, Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Malta, Gwlad Pwyl, Rwmania, Slofacia, Slofenia

Roedd 2.5% y trigolion wedi cael eu geni mewn mannau eraill ac wedi byw yn y DU am fwy na 10 mlynedd. Dim ond 0.4% neu 485 o drigolion Bwrdeistref Sirol Conwy a aned y tu hwnt i'r DU ac oedd wedi byw yma am lai na dwy flynedd yn 2011.

Tabl 7: cyfnod preswlio yn y DU (2011)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl QS803EW

	BS Conwy		Cymru
	Nifer	%	%
Pob person	115,228		
Ganed yn y DU	110,273	95.7%	94.5%
Preswlio yn y DU:			
ers llai na 2 flynedd	485	0.4%	0.9%
ers 2 flynedd neu ragor ond ers llai na 5 mlynedd	659	0.6%	1.0%
ers 5 flynedd neu ragor ond ers llai na 10 mlynedd	885	0.8%	1.2%
ers 10 mlynedd neu ragor	2,926	2.5%	2.5%

Salwch hir dymor cyfyngol

Y gyfran o drigolion Bwrdeistref Sirol Conwy oedd rhwng 16 a 64 (oedran gweithio) ac heb unrhyw salwch hir dymor cyfyngol yn 2011 oedd 83.5%. Mae hyn yn uwch nag yn 2001, sy'n awgrymu bod y boblogaeth rhyw gymaint yn fwy iach yn 2011.

Yn 2001 nid oedd y cwestiwn yn y cyfrifiad ynglŷn â salwch hir dymor yn gofyn i ba raddau yr oedd gweithgarwch dydd i ddydd yn cael ei effeithio, felly nid oes modd gwneud cymhariaeth ynglŷn â difrifoldeb.

Tabl 8: salwch hir dymor cyfyngol (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS301EW & Cyfrifiad 2001 tabl KS008

	BS Conwy			Cymru	
	2011 Cyfrifiad		2001 Cyfrifiad	2011 Cyfrifiad	2001 Cyfrifiad
	Nifer	%	%	%	%
Pob person:	115,228				
Gweithgareddau dydd i ddydd yn gyfyngedig iawn	13,896	12.1%	23.5%	11.9%	23.3%
Gweithgareddau dydd i ddydd ychydig yn gyfyngedig	14,019	12.2%		10.8%	
Gweithgareddau dydd i ddydd ddim yn gyfyngedig	87,313	75.8%	76.5%	77.3%	76.7%
16-64 oed:	67,940				
Gweithgareddau dydd i ddydd yn gyfyngedig iawn	5,209	7.7%	18.2%	8.3%	19.3%
Gweithgareddau dydd i ddydd ychydig yn gyfyngedig	5,982	8.8%		8.6%	
Gweithgareddau dydd i ddydd ddim yn gyfyngedig	56,749	83.5%	81.8%	83.1%	80.7%

Bu gostyngiad bychan iawn yng nghyfran y bobl sy'n darparu gofal di-dâl. Mae'r gyfran o'r rheiny sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal di-dâl yr wythnos wedi cynyddu o hanner un y cant.

Tabl 9: gofawyr di-dâl (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS301EW & Cyfrifiad 2001 tabl KS008

	BS Conwy			Cymru	
	2011 Cyfrifiad		2001 Cyfrifiad	2011 Cyfrifiad	2001 Cyfrifiad
	Nifer	%	%	%	%
Pob person	115,228				
Darpariaeth gofal					
Dim gofal di-dâl	101,623	88.2%	88.8%	87.9%	88.3%
Rhwng awr ac 19 awr o ofal di-dâl yr wythnos	7,813	6.8%	6.9%	6.9%	7.2%
Rhwng 20 a 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos	1814	0.016	1.4%	1.8%	1.5%
Mwy na 50 awr o ofal di-dâl yr wythnos	3,978	3.5%	3.0%	3.4%	3.1%

Crefydd

Mae'r gyfran o Gristnogion ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn 2011 wedi gostwng i 64.7% o'r holl drigolion. 77.7% oedd y gyfran yn 2001. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2011, sef 57.6%.

Mae cyfran y trigolion heb unrhyw grefydd wedi cynyddu o 14% yn 2001 i 26.1% yn 2011. Cyfartaledd Cymru yn 2011 oedd 32.1%.

Ychydig o newid fu yng nghyfradd y crefyddau eraill o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Tabl 10: crefydd (2011 & 2001)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS209EW & Cyfrifiad 2001 tabl KS007

	BS Conwy			Cymru	
	2011 Cyfrifiad		2001 Cyfrifiad	2011 Cyfrifiad	2001 Cyfrifiad
	Nifer	%	%	%	%
Pob person	115,228				
Cristnogaeth	74,506	64.7%	77.7%	57.6%	71.9%
Bwdaeth	347	0.3%	0.2%	0.3%	0.2%
Hindw	206	0.2%	0.1%	0.3%	0.2%
Iddewiaeth	62	0.1%	0.1%	0.1%	0.1%
Mwslim	583	0.5%	0.3%	1.5%	0.8%
Siciaeth	17	0.0%	0.0%	0.1%	0.1%
Crefydd eraill	478	0.4%	0.2%	0.4%	0.2%
Dim crefydd	30,017	26.1%	14.0%	32.1%	18.5%
Crefydd heb ei nodi	9,012	7.8%	7.4%	7.6%	8.1%

Amserlen rhyddhau data

Tabl 11: amserlen rhyddhau data Cyfrifiad 2011 a data poblogaeth perthynol

Prif Ddata'r Cyfrifiad, fesul cam ar sail ddaearyddol (manylion haen uchaf ynglŷn â phoblogaeth a nodweddion aelwydydd a chyflogaeth)	Rhagfyr 2012 – Chwefror 2013
Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diwygiedig ar gyfer 2002-2010	Gwanwyn 2013
Data Cyfrifiad manwl	Mawrth – Hydref 2013
Amcanestyniadau poblogaeth sail-2011 (ystadegau Llywodraeth Cymru)	Yr hydref 2013
Amcanestyniadau aelwydydd sail-2011	2014

Dim ond y prif ystadegau sydd wedi eu rhyddhau ar lefel awdurdod lleol a gyflwynir yn y bwletin hwn. Caiff y prif ystadegau ar gyfer ardaloedd llai gan gynnwys data ar lefel ardaloedd cynnyrch ehangach is, adrannau etholiadol (wardiau) a chynghorau cymuned ei ryddhau tuag at ddiwedd Ionawr 2013. Bydd rhagor o ddata'n cael ei ryddhau fesul cam dros y 18 mis nesaf, a bydd yn cynnwys data croes dabledig manwl ar lefel ardal fach am bobl, aelwydydd a threfniadau byw, gwaith a thai/adnoddau. Isod, ceir y rhaglen ryddhau ar gyfer y data hwn, a diweddariadau data poblogaeth perthnasol.

Wrth i ddata o Gyfrifiad 2011 ddod ar gael, bydd yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol yn cyhoeddi prif ganlyniadau ac yn darparu dadansoddiad ar ein gwefan

<http://www.conwy.gov.uk/cyfrifiad2011>

Ynglŷn â'r Cyfrifiad

Cynhaliwyd y Cyfrifiad ddydd Sul 27 Mawrth 2011. Casglodd wybodaeth am bobl a oedd yn byw fel arfer yng Nghymru neu yn Lloegr, ac mae'n ffynhonnell hynod bwysig o wybodaeth am y boblogaeth ac am gartrefi. Mae'n rhoi gwybodaeth fanwl i ni am y boblogaeth gyfan, am ardaloedd daearyddol bach, ac am grwpiau bach o'r boblogaeth.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi amrediad o ddata ategol gyda'r datganiad hwn.

<http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-286262>

Mae bwletin ystadegol sy'n crynhoi prif ganlyniadau Cymru ar gael ar:

<http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/population-and-household-estimates-for-wales/stb-2011-census-wales.html>

Mae prospectws Cyfrifiad 2011, sy'n rhoi manylion am y rhaglen cyhoeddi data lawn, ar gael ar:

<http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-prospectus/index.html>